8. Make sure that the copy of the bank reconciliation you send to your auditor with the Annual Return covers **all** your bank accounts and cash balances. If there are no reconciling items, please state this and provide evidence of the bank balances. If your Council holds any short-term investments, please note their value on the bank reconciliation. The auditor should also be able to agree your bank reconciliation to line 9 in section 1. More help on bank reconciliation is available in the Practitioners' Guide.
9. **Every** small body is now required to send to the external auditor, information to support the assertions made in the Annual Governance Statement. Your auditor will tell you what information you need to provide. Please read the audit notice carefully to ensure you include all the information the auditor has asked for. You should send **copies** of the original records (certified by the Clerk and Chair as accurate copies) to the external auditor and not the original documents themselves.
10. Please do not send the auditor any information that you are not specifically asked for. Doing so is not helpful.
11. If the auditor has to review unsolicited information, repeat a request for information, receives an incomplete bank reconciliation or explanation of variances or receives original documents that must be returned, the auditor will incur additional costs for which they are entitled to charge additional fees.
12. **Do not complete the Auditor General for Wales' Audit Certificate and report.** The external auditor completes this on behalf of the Auditor General for Wales on completion of the audit.
13. **Please deal with all correspondence with the external auditor promptly.** This will help you to meet your statutory obligations and will minimise the cost of the audit.
14. **Please note that if completing the electronic form, you must print the form for it to be certified by the RFO and signed by the Chair before it is sent to the auditor.**



EITEM AGENDA RHIF: 7

ADRODDIAD I: CYDBWYLLGOR PTGGGC

DYDDIAD: 27^{AIN} GORFFENAF 2017

ADRODDIAD GAN: RHEOLWR CONTRACT

PWNC: ADRODDIAD DIWEDDARIAD PROSIECT

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. I ddiweddarau'r Bwrdd Prosiect ar y cynnydd gydag adeiladu'r Parc Adfer ac agweddau eraill o Brosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC).

2. CEFNDIR

2.1. Cafwyd Cwblhau Ariannol o gaffael PTGGGC yng nghanol mis Rhagfyr 2016 ac mae'r contract wedi'i ddyfarnu'n ffurfiol i Wheelabrator Technologies Inc, gyda'r contract bellach yn ei le.

2.2. Contractwr Caffael Peirianeg ac Adeiladu (EPC) WTI yw CNIM, a'r is-gontractwr Peirianeg Sifil yw Clugston. Mae CNIM a Clugston yn gontractwyr profiadol iawn yn y farchnad Troi Gwastraff yn Ynni (EfW). Ar ben hynny, mae ganddynt berthynas sefydledig, ac mae'r Parc Adfer y 10^{fed} prosiect adeiladu EfW iddynt ei wneud gyda'i gilydd.

2.3. Ceir Gweithdrefn Gyswllt ar gyfer adrodd ar gynnydd ar y gwaith adeiladu yn erbyn yr amserlen yn y Cytundeb Prosiect (PA). Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion PA, cyflwynir Adroddiad Cynnydd Adeiladu Misol ffurfiol i'r awdurdod gan WTI. Cynhelir cyfarfodydd misol (Bwrdd Rheoli Contractau), gyda WTI a'u contractwyr i adrodd yn ffurfiol ar gynnydd, materion ar y safle, ac unrhyw botensial risgiau hysbys i'r rhaglen.

2.4. Cynrychiolir y PTGGGC ar y Bwrdd Rheoli Contractau (CMB) ac mae holl gynnyrch a thrafodaethau'r CMB yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Swyddogion Technegol a'r Bwrdd Prosiect.

2.5. Yn ogystal â'r uchod, mae Rheolwr Prosiect yr awdurdod yn ymweld â'r safle'n rheolaidd.

3. YSTYRIAETHAU

Cynnydd Adeiladu

3.1. Yn dilyn Dyfarnu'r Contract yng nghanol mis Rhagfyr, dechreuodd WTI a'u contractwyr fobileiddio a chynllunio dechrau'r gwaith adeiladu. Darparwyd y



gyfran gyntaf o'r arian o'r banc o fewn dau ddiwrnod gwaith o gwblhau'r agweddau ariannol, er mwyn caniatáu cynnydd cyflym.

- 3.2. Dechreuodd contractwyr WTI archwiliadau safle (e.e. lefelau dŵr daear ayb), a mobileiddio yn Ionawr 2017, gan sefydlu mynediad dros dro a chabanau swyddfa adeiladu.
- 3.3. Yna dechreuodd y gwaith tir, gan gynnwys gweithio ar lefelau'r safle a sefydlogi'r tir, a oedd yn caniatáu i'r pwll byncer gwastraff gael ei gloddio a'i sefydlogi.
- 3.4. Bu ffocws y gwaith ar y safle yn y cam gweithiau cynnar hwn ar y byncer gwastraff. Cafodd y pwll byncer gwastraff ei gloddio, ac yna gosodwyd pyst concred i'r byncer cyfan, a oedd yn caniatáu i lawr y byncer concred gael ei roi yn ei le.
- 3.5. Ar adeg ysgrifennu, mae swyddfeydd llawn y safle a mynediad ôl bys i'r safle yn eu lle, mae'r gwaith pyst ar gyfer yr adeilad prosesu cyfan bron â'i gwblhau, ac mae mur y byncer bellach yn cael ei adeiladu. Mae'r mynediad i'r prif safle bellach wedi ei gwblhau ac yn cael ei ddefnyddio. Yn gyffredinol, dywed WTI fod yr adeiladu 15% yn gyflawn.
- 3.6. Mae lefelau staffio ar y safle wedi cynyddu'n gyson o lefelau cynnar o tua 35 yn ystod gwaith ar y tir i tua 100 ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd lefelau staffio ar y safle yn ystod cyfnod brig y gwaith adeiladu tua 350. Mae ymweliad safle yn cael ei drefnu i gyd-fynd â chyfarfod y Cydbwyllgor, fodd bynnag, ar gyfer y rhai na allant fynychu'r ymweliad â'r safle, darparwyd rhai lluniau o'r safle i Aelodau mewn cyfarfod briffio ar wahân.

Risg i'r rhaglen

- 3.7. Asesiad WTI o'r risg gyffredinol i'r amserlen yw isel.
- 3.8. Un maes sydd wedi cael ei amlygu fel isel i ganolig yw Cysylltiadau Diwydiannol. Mae hyn yn cael ei raddio'n isel i ganolig gan nad yw prosiect adeiladu'r Parc Adfer o dan gytundeb y Cytundeb Cenedlaethol ar gyfer y Diwydiant Adeiladu Peirianeg (NAECI).
- 3.9. Mae NAECI yn gytundeb bargeinio ar y cyd a ddefnyddir yn y Diwydiant Adeiladu Peirianeg (gyda chefnogaeth undebau Unite a'r GMB). Mae'n set o delerau cyflogaeth a negodwyd rhwng cynrychiolwyr y cyflogwyr ac Undebau Llafur, sydd wedyn fel arfer yn cael ei ymgorffori'n benodol i gontract y gweithiwr unigol.
- 3.10. Fel arfer mae NAECI yn berthnasol i "Brosiectau Mawr", fel prosiectau ynni o bwys nad yw eu penderfyniadau cynllunio'n cael eu gwneud yn lleol (dros 50MW), ond nid oes gofyniad i'w ddefnyddio o dan y lefel hon.
- 3.11. Hwylusodd Cyngor Sir y Fflint gyfarfod ar ddiwedd mis Chwefror rhwng WTI a'u his-gontractwyr a chynrychiolwyr yr undebau. Canlyniad y cyfarfod hwn



oedd bod is-contractwyr WTI a'r undebau i gynnal rhagor o drafodaethau. Mae trafodaethau o'r fath sy'n ymwneud â chytundeb NAECI yn gyffredin i brosiectau adeiladu o'r math hwn ac nid ydynt yn benodol i'r Parc Adfer. Yn wir, mae NAECI a phwyntiau trafod cysylltiadau diwydiannol eraill sy'n ymwneud ag undebau yn nodwedd gyffredin yn genedlaethol gyda'r math hwn o brosiect.

- 3.12. Oherwydd nad yw'r Parc Adfer wedi mabwysiadu NAECI ar y safle, mae'n cael ei weld fel cynyddu'r risg o rhyw fath o weithredu diwydiannol ar y safle, sydd â'r potensial i oedi cwblhau.

Dyddiadau allweddol yr adroddwyd arnynt

- 3.13. Mae WTI wedi adrodd ar y dyddiadau allweddol canlynol:-

Dyddiad Allweddol Gweithgaredd a Gyflawnwyd	
Cau Ariannol / Dyddiad Dod i Rym	15fed Rhagfyr 2016
Caffael bob eitem amser arweiniad hir1 wedi ei gwblhau	27ain Mawrth 2018
Cychwyn Gwaith Cysylltiad Grid drwy DNO2	11eg Ebrill 2018
Gwaith dylunio wedi ei gwblhau	7fed Awst 2019
Gwaith cloddio byncer a gwaith concriid wedi ei gwblhau	8fed Hydref 2018
Trosglwyddo'r safle o Clugston i CNIM wedi ei gwblhau	28ain Mehefin 2019
Eitemau amser arweiniad hir i gyd ar y safle	27ain Medi 2018
Eitemau amser arweiniad hir wedi eu gosod	31ain Rhagfyr 2018
Prawf pwysedd bwylwr	2il Awst 2018
Prawf Cysylltiad Grid G59 / Cwblhau gan SPEN	22ain Awst 2018
Cychwyn hyfforddiant staff Contractwr O & M	18fed Mawrth 2019
Cyhoeddi Tystysgrif Cwblhau Adeiladu	21ain Mai 2019
Cyhoeddi Tystysgrif Prawf Parodrwydd	21ain Mai 2019
Cyhoeddi Tystysgrif Prawf Derbyn	14eg Hydref 2019

- 3.14. Un dyddiad allweddol o'r tabl uchod yw'r "Cyhoeddi Tystysgrif Prawf Parodrwydd " sy'n cael ei nodi fel 21^{ain} Mai 2019. Dyma gychwyn y cyfnod comisiynu pan fydd gwastraff oddi wrth yr awdurdodau yn mynd i mewn i'r cyfleuster. Ceir "Cyhoeddi Tystysgrif Prawf Derbyn" pan fydd y gwaith yn cael ei ardystio'n annibynnol fel ei fod yn barod i gychwyn gweithrediadau, felly bydd cychwyn gwasanaeth llawn ar gyfer y contract yn cychwyn ar y dyddiad hwn o 14^{eg} Hydref 2019.

Grŵp Cyswllt Cymunedol (CLG)

- 3.15. Rhan allweddol o ymgysylltiad cymunedol WTI a PTGGGC wrth symud ymlaen yw ffurfio Grŵp Cyswllt Cymunedol (CLG). Sefydlwyd y grŵp hwn yn syth ar ôl Cwblhau'r Agweddau Ariannol ac mae'n cael ei reoli gan WTI. Gwahodwyd nifer o grwpiau ac unigolion i fynychu. Mae'r gwahoddedigion yn cynnwys cynghorau cymuned lleol yn agos at y safle, Cynghorwyr Sir y Fflint sydd â diddordeb, grwpiau diddordeb a grwpiau eraill sydd â



diddordeb yn y prosiect (e.e. Cymdeithas Trigolion Burton) a grwpiau rhanddeiliaid allweddol megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r awdurdod cynllunio. Cynrychiolir partneriaeth PTGGGC ar y grŵp gan y Rheolwr Contract a'r Prif Weithredwr Arweiniol. Gwahoddwyd hefyd aelodau o'r cyhoedd a oedd wedi dangos diddordeb mewn mynychu cyfarfodydd y CLG.

- 3.16. Y bwriad yw i'r CLG gyfarfod mor rheolaidd ag y teimlir bod angen, a hyd yma mae'r CLG wedi cyfarfod ddwywaith gyda'r bwriad o gwrdd eto ym mis Medi/ Hydref 2017.
- 3.17. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yng nghyfarfod Cyngor Tref Cei Connah ac roedd yr agenda yn canolbwyntio'n bennaf ar amlinelliad o gylch gorchwyl awgrymedig ar gyfer y grŵp, gan roi cefndir y prosiect i'r mynychwyr ac amlinelliad o'r amserlen adeiladu.
- 3.18. Cynhaliwyd yr ail gyfarfod o'r CLG yn swyddfeydd WTI ar safle'r Parc Adfer a chafwyd ymweliad safle ar yr un pryd. Cytunwyd ar y cylch gorchwyl ar gyfer y grŵp, adroddwyd ar y cynnydd adeiladu a rhoddodd WTI rhai manylion amlinellol o'u Grant Cymunedol Cyfnod Adeiladu sydd ar y gweill. Mae hon yn gronfa o £50k y mae WTI yn ei gwneud ar gael i sefydliadau dielw ar gyfer prosiectau sydd o fudd i'r amgylchedd yn agos at y Parc Adfer yn ystod y cyfnod adeiladu. Mwynhaodd pawb yr ymweliad safle.
- 3.19. Hyd yn hyn, mae'r CLG wedi bod yn ffordd gadarnhaol i WTI a'r Bartneriaeth ymgysylltu â'r gymuned leol. Y gobaith yw y bydd cyfarfod nesaf y CLG yn cynnwys ymweliad safle i gyfleuster arall.

Meysydd cynnydd eraill

- 3.20. Mae nifer o feysydd eraill o weithgaredd sy'n gysylltiedig â'r Parc Adfer a PTGGGC a drafodir yn fanwl mewn rhannau eraill o'r agenda, fodd bynnag, dyma amlinelliad isod:-
- 3.21. Rheoli Contractau - yn dilyn cyfweliad manwl, penodwyd y cyn-Reolwr Prosiect yn ystod y cyfnod caffael yn Rheolwr Contractau ym mis Chwefror 2017. Amlinellir prif feysydd gwaith y Rheolwr Contractau yn eitem agenda 9 ynghyd ag adolygiad rheoli contractau a hyfforddiant y bydd LIC yn ei gynnal yn ddiweddarach eleni.
- 3.22. Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff a chontract Cludiant – mae'r Grŵp Swyddogion Technegol bellach yn gweithio tuag at ddatblygu contract cludiant cyfun i gludo'r gwastraff o'r awdurdodau i'r Parc Adfer. Ceir adroddiad pellach am hyn ac ar gynnydd Conwy a Sir Ddinbych parthed eu Gorsafoedd Trosglwyddo Gwastraff yn eitem 8 ar yr agenda.
- 3.23. Cyfleoedd eraill – cyfarfu'r awdurdodau partner i drafod lle mae cyfleoedd posibl ar gyfer cydweithio pellach o fewn eu swyddogaethau rheoli gwastraff, megis Canolfannau Ailgylchu Gwastraff. Hefyd, mae trafodaethau wedi dechrau gyda rhanddeiliaid amrywiol i archwilio mewn mwy o fanylder



y potensial o ddefnyddio gwres/ stêm o'r Parc Adfer. Fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor, gallai'r cyfleuster Gwres a Phŵer (CHP), trwy ddefnyddio'r gwres/ stêm yn lleol, fod o fudd amgylcheddol sylweddol drwy gynyddu effeithlonrwydd y cyfleuster, yn ogystal â rhoi buddion economaidd i'r WTI a'r Bartneriaeth. Mae pob un o'r meysydd uchod yn cael eu trafod yn fanylach yn eitem 10 ar yr agenda.

Cyllideb Rheoli Contractau ar gyfer 2017/2018

3.24. Yn Atodiad 1 isod, ceir crynodeb o'r gyllideb rheoli contract ar gyfer 2017/18, a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Bwrdd Prosiect.

4. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Cydbwyllgor:-

- 4.1. Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.
- 4.2. Cymeradwyo'r gyllideb 2017/18 a ddarperir yn yr adroddiad.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 5.1. Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad hwn, neu adroddiadau eraill y cyfeirir atynt.

6. EFFAITH GWRTH DLODI

- 6.1. Amherthnasol.

7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL

- 7.1. Bu goblygiadau amgylcheddol y contract eisoes drwy broses gymeradwyo ym mhob un o'r awdurdodau partner.

8. EFFAITH CYDRADDOLDEB

- 8.1. Amherthnasol.

9. GOBLYGIADAU PERSONÉL

- 9.1. Amherthnasol.

10. ANGEN YMGYNGHORIAD

- 10.1. Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn.

11. YMGYNGHORIAD WEDI'I GYNNAL

- 11.1. Amherthnasol.



NWRWTP

North Wales Residual Waste Treatment Project

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985

Dogfennau Cefndir:

Dim

Swyddog Cyswllt: Steffan Owen - Rheolwr Prosiect PTGGGC



NWRWTP

North Wales Residual Waste Treatment Project

Atodiad 1 – Cyllideb ar gyfer 2017/18

PROSIECT TRIN GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU		
Rheoli Contract – cyllideb ddrafft ar gyfer 2017-18		
PENNAWD GWARIANT	CYLLIDEB DDRAFFT 2017-18	
		Nodiadau
	£	
Rheolwr Contract	70,000	Cynnwys costau untro, amcangyfrif wedi seilio ar gostau 2016/17 + 1%
Costau teithio a threuliau eraill Rheolwr Contract	3,000	
Aildaliad gweinyddu mewnol Awdurdod Arweiniol	30,000	I gynnwys costau agweddau fel llywodraethu, cyfrifyddu, AD ayb
TG/Ffonau	300	Amcangyfrif wedi seilio ar gostau 16/17
Meddalwedd		
Papur/Argraffu/Tanysgrifiadau	50	
Cyfieithu	1,000	Seiliedig ar 3 Cydbwyllgor
System Rheoli Dogfen	7,500	System o'r enw "Affinixtext"
Hysbysebu	200	Hysbyseb Datganiad Cyfrifon
Lleoliadau	1,500	
Ffioedd archwilio	900	
CYFANSWM COSTAU RHEOLI CONTRACT	114,450	
Costau ymgynghorwyr parhaus	49,000	Seiliedig ar gyngor o £30K/pa + £19k i fodol ariannol awdurdodau Grant Thorton (gwariwyd £15k yn 16/17, a disgwyllir gwario £19k yn 17/18)
CYFANSWM COSTAU YMGYNGHORWYR	49,000	
Wrth gefn	10,000	
CYFANSWM COSTAU	173,450	
Cyfraniad LIC		
Incwm arall		
CYFANSWM INCWM	0	
COST NET	173,450	
RHANIAD HAFAL Y BARTNERIAETH	34,690	



EITEM AGENDA RHIF: 9

ADRODDIAD I: CYDBWYLLGOR PTGGGC

DYDDIAD: 27ain GORFFENNAF 2017

ADRODDIAD GAN: RHEOLWR CONTRACT

PWNC: ADRODDIAD RHEOLI CONTRACT

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Hysbysu'r Cydbwyllgor ar y cynnydd a datblygiad sy'n gysylltiedig â Rheoli Contract Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC), Rheoli Contract megis penodi Rheolwr Contract, Rheoli Contract mewn contractau awdurdodau eraill tebyg, a hyfforddiant rheoli contractau Llywodraeth Cymru.

2. CEFNDIR

2.1. Cafodd contract PTGGGC ei lofnodi a Chwblhawyd yr Agweddau Ariannol gyda Wheelabrator Technologies Inc (WTI) ym mis Rhagfyr 2016. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r trefniadau Rheoli Contract sydd wedi cael eu rhoi ar waith ers hynny, a hefyd datblygiadau yn y dyfodol yn y maes hwnnw.

3. YSTYRIAETHAU

Penodi Rheolwr Contract

3.1. Yn gynnar yn 2017, adolygodd Cyngor Sir y Fflint, fel yr awdurdod arweiniol, y ffordd orau o benodi Rheolwr Contract yn seiliedig ar brofiad mewnol, cyngor allanol a phrofiadau o gontractau awdurdod lleol tebyg eraill.

3.2. Ar ôl ystyried, penderfynwyd cynnig cyfweiliad ar gyfer y swydd Rheolwr Contract i Reolwr y Prosiect o gam caffael PTGGGC. Yn dilyn cyfweiliad helaeth, cafodd ei benodi i'r swydd ym mis Chwefror 2017.

Hyfforddiant Rheoli Contract

3.3. Fel rhan o'i chefnogaeth barhaus i'r PTGGGC, mae Llywodraeth Cymru (LIC) yn darparu hyfforddiant Rheoli Contract ar gyfer pob contract seilwaith gwastraff, ac fel y cyfryw mae wedi cynnig yr hyfforddiant i PTGGGC.

3.4. Mae'r hyfforddiant i gael ei ddarparu gan Local Partnerships (LP) ar ran Llywodraeth Cymru, ac maent eisoes wedi darparu hyfforddiant i'r Prosiect Gwyrdd (De Cymru).

3.5. Bu'r Rheolwr Contract a Chefnogaeth Prosiect LIC (Huw Roberts) mewn trafodaethau gydag LP ynghylch llunio rhaglen hyfforddi bwrpasol ar gyfer y



PTGGGC gyda senarios penodol i redeg drwodd, a dewis modiwlau penodol. Yn awr ceisir dyddiadau ar ddiwedd mis Medi/ dechrau Hydref ar gyfer yr hyfforddiant.

3.6. Nid yw'r manylion hyfforddiant (modiwlau i'w cynnwys, ayb.) wedi eu cwblhau eto, fodd bynnag, yn dilyn adborth gan y Rheolwr Contract ar feysydd penodol lle gallai hyfforddiant fod o gymorth, mae LP wrthi'n gweithio ar fanylion yr hyfforddiant. Mae hefyd werth nodi bod Adolygiad Rheoli Contract i gael ei wneud gan LP wedi cael ei drefnu ar gyfer dechrau mis Medi er mwyn helpu teilwra'r hyfforddiant i anghenion y Bartneriaeth (gweler isod). Isod ceir amlinelliad o'r hyn sy'n cael ei gynnig hyd yn hyn:-

3.7. Cynnwys y cwrs

- Deall y Mekanwaith Talu a model ariannol Achos Sylfaenol (yn canolbwyntio ar sut y mae'r modelau yn cael eu hadeiladu gyda golwg ar arbedion posibl yn y dyfodol)
- Rheoli Cysylltiadau Contract
- Rheoli Dogfennau Contract a chadw cofnodion ar gyfer Archwilio
- Rheoli sgysiaau a thrafodaethau anodd
- Rheoli risg
- Monitro effeithiol o DPA a chymhwysiad y Fframwaith Rheoli Perfformiad
- Newid Contractwr /Awdurdod a nodi arbedion
- Rheoli Gwybodaeth

3.8. Adolygiad Rheoli Contract – Fel y nodwyd uchod, mae Adolygiad Rheoli Contract i gael ei gynnal gan LP wedi cael ei drefnu i helpu i deilwra hyfforddiant i anghenion y Bartneriaeth. Fformat yr adolygiad fydd dau Swyddog LP yn dod i Ogledd Cymru ac yn cynnal cyfres o gyfweiliadau gyda swyddogion allweddol (e..e swyddogion arweiniol ayb) ac Aelodau etholedig allweddol os yn bosibl. Y ddau ddiwrnod sy'n cael eu rhoi yn y dyddiadur yw 6^{ed} a 7^{ed} o Fedi.

3.9. Presenoldeb – Argymhellir yn gryf bod presenoldeb o bob awdurdod, gyda phresenoldeb yr holl Swyddogion Technegol, Swyddog Cyllid a enwebwyd gan yr Awdurdod Arweiniol, Archwilio yr Awdurdod Arweiniol, Swyddog Cyfreithiol a ddyrannwyd gan yr Awdurdod Arweiniol, yn ogystal ag ail swyddog cyfreithiol ac ail swyddog cyllid.

Hyfforddiant ariannol

3.10. Yn ogystal â'r hyfforddiant uchod, mae'r bartneriaeth bellach wedi cyflogi ymgynghorwyr ariannol y prosiect, Grant Thornton, i greu 2 fodel ariannol ar gyfer yr awdurdodau sy'n bartneriaid, a fydd yn help sylweddol i'r awdurdodau gyda'r llif taliadau misol a blynyddol, sy'n gymhleth ac yn fawr, bob mis.

3.11. I gyd-fynd â'r modelau ariannol, bydd Grant Thornton yn darparu hyfforddiant ar sut i'w defnyddio. Mae'r Rheolwr Contract bellach yn gweithio gyda Grant Thornton ac LP er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant model ariannol yn ategu hyfforddiant LP/ LIC. Y bwriad yw sicrhau erbyn diwedd yr hyfforddiant y bydd pob swyddog ariannol a thechnegol o fewn yr awdurdodau partner yn deall y llif taliadau, ac yn hollbwysig yn dechrau cynllunio eu staffio yn unol â hynny er



mwyn sicrhau bod y strwythur staffio priodol yn ei le i gwrdd â'r terfynau amser talu bob mis.

Llawlyfr Contract

3.12. Ar gyfer contractau mawr a chymhleth fel y Parc Adfer, ystyrir bod Llawlyfr Contract yn offeryn rheoli contract hollbwysig i'r awdurdodau. Gyda hyn mewn golwg, mae'r Rheolwr Contract ar hyn o bryd yn y broses o lunio Llawlyfr Contract. Mae'n cynnwys holl elfennau hanfodol y contract a bydd yn cynnwys yr elfennau canlynol:-

3.13. Cafodd y gwaith ei gynorthwyo gan Gefnogaeth Prosiect LIC, ac mae rhai elfennau allweddol wedi ei wneud gyda chymorth ymgynghorwyr cyfreithiol y prosiect, Pinsent Masons.

- Crynodeb Contract llawn/ Llyfr Gwaith
- Amlinelliad o strwythur y contract,
- Siartiau llif proses ar gyfer mecanweithiau cytundebol,
- Rhestr o ddogfennau allweddol,
- Cofrestr o rwymedigaethau, yn gysylltiedig â chalendr lle bo angen,
- Traciwr Camau Gweithredu Allweddol.

4. ARGYMHELLION

4.1. Bod y Cydbwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad

4.2. Gofynnir i Aelodau allweddol y Cydbwyllgor gynorthwyo Adolygiad Rheoli Contract LIC drwy gyfarfod â Local Partnerships os oes angen.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Mae LIC i ariannu hyfforddiant rheoli contract. Caniatwyd ar gyfer yr holl gostau ymgynghorwyr yng nghyllideb 2017/18.

6. EFFAITH GWRTH DLODI

Amherthnasol.

7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL

Amherthnasol

8. EFFAITH CYDRADDOLDEB

Amherthnasol.

9. GOBLYGIADAU PERSONÉL

Amherthnasol.

10. ANGEN YMGYNGHORIAD

Dim.



11. YMGYNGHORIAD WEDI'I GYNNAL

11.1. Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn.

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985

Dogfennau Cefndir:

Dim

Swyddog Cyswllt:

Steffan Owen - Rheolwr Contract
Steffan.r.owen@flintshire.gov.uk



EITEM AGENDA RHIF: 10

ADRODDIAD I: CYDBWYLLGOR PTGGGC

DYDDIAD: 27ain GORFFENNAF 2017

ADRODDIAD GAN: RHEOLWR CONTRACT

PWNC: ADRODDIAD CYFLEOEDD POSIBL

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1.1. Hysbysu'r Cydbwyllgor ar gynnydd a datblygiad y cyfleoedd posibl sy'n gysylltiedig â'r Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC) y tu allan i'r prif contract.

2. CEFNDIR

- 2.1. Cafodd contract PTGGGC ei lofnodi a Chwblhawyd yr Agweddau Ariannol gyda Wheelabrator Technologies Inc (WTI) ym mis Rhagfyr 2016. Y tu allan i'r contract hwnnw, mae cyfleoedd am ragor o waith cydweithredol fel partneriaeth, ond hefyd yn ymwneud yn benodol â'r Parc Adfer. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaed ar y cyfleoedd hynny.

3. YSTYRIAETHAU

Defnydd posibl o wres o'r Parc Adfer

- 3.1. Mae cyfleusterau modern Troi Gwastraff yn Ynni fel y Parc Adfer yn dechnegol yn weithfeydd datblygedig sy'n trin y gwastraff mor effeithlon a glân â phosibl. Bydd y Parc Adfer yn cynhyrchu dros 16.5MW o drydan i gael ei allforio i'r grid.
- 3.2. Yn ogystal â thrydan, un o sgil-gynhyrchion y broses Troi Gwastraff yn Ynni yn y Parc Adfer yw gwres o ddŵr poeth/ stêm. Mae modd defnyddio'r gwres hwn mewn busnesau cyfagos a hyd yn oed mewn cartrefi pan fo'r amgylchiadau'n caniatáu, ac mae'r cyfleusterau sy'n gwneud hyn yn cael eu hadnabod fel gweithfeydd Gwres a Phŵer Cyfun (CHP). Mae'r Parc Adfer wedi ei "alluogi" o ran CHP, sy'n golygu ei bod yn bosibl "cysylltu" gwres i'r broses Troi Gwastraff yn Ynni i allforio'r gwres.
- 3.3. Mae allforio'r gwres ar gyfer defnydd allanol yn cynyddu effeithlonrwydd y gwaith, ond gallai hefyd ddarparu incwm ychwanegol i WTI a'r bartneriaeth. Fodd bynnag, mae nifer o heriau wrth ddatblygu rhwydwaith gwres, rhai ohonynt wedi eu crynhoi isod:-



- Heriau daearyddol - lle mae'r defnyddwyr gwres wedi eu lleoli? Ymhellach i ffrwd oddi wrth y gwaith y maent, y lleiaf effeithlon fydd y broses.
 - Heriau technegol yn ymwneud â'r seilwaith pibellau a gofynion y defnyddwyr gwres (pwysau, tymheredd ayb),
 - Heriau masnachol – er mwyn cael dychweliad ar y buddsoddiad yn y seilwaith, fel arfer mae angen defnyddwyr gwres lluosog, gyda phob un ohonynt angen ymrwymo i gontract ynni/ gwres tymor hir. Gall hyn fod yn anodd gyda defnyddwyr lluosog
- 3.4. Tra bod yr uchod yn cynrychioli heriau, mae rhai cyfleoedd posibl ar gyfer defnyddio gwres o'r Parc Adfer y mae'r Bartneriaeth a WTI yn awr yn mynd ar eu trywydd. Bu WTI mewn trafodaethau gyda busnesau cyfagos amrywiol ynghylch y defnydd o wres; fodd bynnag dywedodd y busnesau hynny nad oes ganddynt angen am y gwres ar hyn o bryd nac yn y dyfodol rhagweladwy.
- 3.5. Un maes gyda rhywfaint o botensial ar gyfer datblygu rhwydwaith gwres yw'r datblygiad defnydd cymysg Northern Gateway / Airfields ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint, sef cyfanswm o 235 hectar (ha) o dir, sy'n gorwedd bob ochr i'r gefnffordd yr A550.
- 3.6. Er mwyn deall yn llawn hyfywedd technegol ac economaidd defnyddio gwres y Parc Adfer, mae'n ofynnol cael astudiaeth ddichonoldeb arbenigol. Er mwyn symud hyn ymlaen bu'r Rheolwr Contract yn gweithio gyda WTI, Llywodraeth Cymru, swyddogion allweddol eraill yng Nghyngor Sir y Fflint a sefydliadau allweddol eraill megis yr Ymddiriedolaeth Garbon ac Uned Cyflenwi Rhwydwaith Gwres (HNDU) yr Adran Busnes, Strategaeth Ddiwydiannol ac Ynni yn San Steffan.
- 3.7. Mae gan yr HNDU raglen grant cyfalaf o £320m i gefnogi'r gwaith o ddatblygu rhwydweithiau gwres yng Nghymru a Lloegr, ac mae hefyd yn gallu ariannu hyd at 67% o gostau astudiaethau dichonoldeb ar gyfer prosiectau. Gan gadw mynediad at y cronfeydd uchod mewn cof, mae'r Rheolwr Contract bellach yn gweithio gyda chydweithwyr yng Nghyngor Sir y Fflint sydd eisoes wedi defnyddio'r arian hwn ar gyfer astudiaethau gwres fewn Sir y Fflint, i gomisiynu adroddiad ar gyfer y Parc Adfer.
- 3.8. O ran costau'r astudiaeth, nid ydynt yn hysbys ar hyn o bryd, ond yr arwyddion yw y byddai rhywle o gwmpas £30k - £40k yn debygol o fod yn ddigonol ar gyfer darn o waith arbenigol o'r fath. Gyda'r HNDU yn gallu ariannu 67% o hyn, mae angen ariannu'r gweddill (33%, tua £10 K £13 k). Yn awr edrychir am ffynonellau ariannu ar gyfer yr elfen honno.
- 3.9. Adroddir yn rheolaidd i'r Bwrdd Prosiect yn y dyfodol ar y cynnydd ar y ffrwd gwaith rhwydwaith gwres.

Cydweithio yn y Dyfodol

- 3.10. Mae'r awdurdodau partner wedi bod yn awyddus i archwilio meysydd eraill o'u gweithrediadau rheoli gwastraff i weithio ar y cyd arnynt er lles yr holl awdurdodau.



3.11. Gan gadw hyn mewn cof, cynhaliwyd cyfarfod gyda Rheolwyr Gwastraff yr awdurdodau ym Mai 2017 i archwilio a oedd unrhyw feysydd lle y gallent gydweithio. Cafodd amrywiaeth o feysydd eu harchwilio a'u trafod, fel a restrir isod:-

- Bandio / hyrwyddo
- Addysg/ allgymorth/ ymgysylltu cymunedol / ymgynghoriadau
- Caffael
 - Cerbydau
 - Cynwysyddion
 - Offer/ gwasanaethau eraill
- Gweinyddu/ Cyllid/ Staffio/ Rheoli Contract
- Ymgynghori / Ymchwil ayb

3.12. Er gwaethaf parodrwydd bob ochr a natur agored y trafodaethau, teimlwyd bod nifer o feysydd lle roedd gofod cyfyngedig ar gyfer cydweithio pellach, gan fod eisoes lefel uchel o weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau eraill neu sefydliadau eraill. Enghraifft o hyn yw brandio a hyrwyddo. Mae gwaith sylweddol eisoes wedi'i wneud gan y Cynllun Craff am Wastraff, Rhaglen Weithredu Adnoddau Gwastraff (WRAP) Cymru a Llywodraeth Cymru ar ddatblygu brandio cyffredin a deunyddiau hyrwyddo sydd ar gael i bob awdurdod. Mae'r deunydd hwn yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan yr awdurdodau. Eisoes caiff deunydd hyrwyddo ei rannu'n rhwydd rhwng awdurdodau i rannu arfer gorau a phrofiadau.

3.13. Enghraifft arall o faes lle mae gwaith eisoes yn cael ei wneud i fwyhau effeithlonrwydd o fewn yr awdurdodau yw caffael, lle mae nifer o cytundebau fframwaith yn eu lle i awdurdodau eu defnyddio wrth gaffael. Felly cyfle cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer caffael ar y cyd ar rai pethau penodol.

3.14. Fodd bynnag, nodwyd rhai meysydd posibl fel rhai lle y gellid archwilio cydweithio. Un maes o'r fath yw rheoli a darparu Canolfannau Ailgyrchu Gwastraff Cartrefi (CAGC). Enghraifft arall yw deunyddiau anodd/ arbenigol fel clytiau ayb. Bydd y rhain yn awr yn cael eu harchwilio ymhellach rhwng yr awdurdodau.

Cynllun Peilot Bysiau sy'n defnyddio tanwydd Hydrogen

3.15. Mae cynllun peilot yn y camau cychwynnol o gael ei ymchwilio ar gyfer fflyd fechan o fysiau sy'n defnyddio tanwydd hydrogen yng Ngogledd Cymru, i gael eu rhedeg ar danwydd hydrogen a gynhyrchir yn yr ardal. Defnyddir proses o'r enw electrolysis i gynhyrchu hydrogen lle mae dŵr yn ddarostyngedig i gerrynt trydanol uniongyrchol. Mae'r broses yn gwahanu'r hydrogen ac ocsigen yn y dŵr. Gall yr hydrogen wedyn gael ei ddefnyddio fel tanwydd mewn bysiau sy'n cael eu gyrru gan danwydd hydrogen.

3.16. Cysylltwyd â PTGGGC i weld a ellid defnyddio'r Parc Adfer fel ffynhonnell y trydan, a safle ar gyfer rhoi'r tanwydd yn y bysiau. Ar ôl ystyried, dangosodd Wheelabrator Technologies Inc (WTI) awydd i ymchwilio i'r posibilrwydd ymhellach.



3.17. Mae gwaith yn awr yn mynd rhagddo i nodi gwybodaeth allweddol gan gyflenwyr technoleg electrolysis a'r persbectif trafndiaeth gyhoeddus cyn trafod ymhellach gyda WTI. Hefyd archwilir ffynonellau cyllid ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb ac achos busnes.

4. ARGYMHELLION

4.1. Bod y Cydbwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Amlinellir costau posibl astudiaeth ddichonoldeb gwres yn yr adroddiad hwn.

6. EFFAITH GWRTH DLODI

Amherthnasol.

7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL

Amherthnasol

8. EFFAITH CYDRADDOLDEB

Amherthnasol.

9. GOBLYGIADAU PERSONÉL

Amherthnasol.

10. ANGEN YMGYNGHORIAD

Dim.

11. YMGYNGHORIAD WEDI'I GYNNAL

11.1. Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn.

DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985

Dogfennau Cefndir:

Dim

Swyddog Cyswllt

Steffan Owen
Rheolwr Contract
Steffan.r.owen@flintshire.gov.uk

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag